Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Myddelton
# Lôn Peake
# Dinbych
# LL16 3EN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Myddelton

Ysgol breswyl ac ysgol ddydd gydaddysgol annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 9 ac 18 oed yw Coleg Myddelton, sydd wedi'i lleoli yn Ninbych, Gogledd Cymru. Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2016 ac fe'i gweinyddir gan IQ Education Limited, sef cwmni sydd ag ysgol arall yn Lloegr, a chysylltiadau â sawl ysgol yn Tsieina.

Mae 215 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 34 o ddisgyblion yn yr adran gynradd, a 179 yn yr adran uwchradd, gan gynnwys 43 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Ychydig iawn o wahaniaeth a geir yng nghyfanswm nifer y bechgyn a'r merched, er bod hyn yn amrywio mewn grwpiau blwyddyn penodol ar draws yr ysgol.

Mae tua 68% o ddisgyblion yn ddisgyblion dydd sy'n byw yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint neu Gonwy ac mae tua 32% ohonynt yn ddisgyblion rhyngwladol o 16 cenedligrwydd gwahanol.

Daw bron i 23% o ddisgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol. Mae tua 32% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol. Nid yw'r ysgol yn anelu at wneud disgyblion yn ddwyieithog mewn Cymraeg a Saesneg, ond mae'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 astudio Cymraeg ail iaith. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ysgol yn cynnig cymorth dysgu ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion, yn bennaf i gefnogi eu datblygiad o ran llythrennedd neu anawsterau dysgu cyffredinol.

Ni chaiff disgyblion eu dewis yn ôl gallu. Mae derbyniadau i unrhyw grŵp blwyddyn yn cynnwys cyfweliad â'r pennaeth ac asesiadau gwaelodlin mynediad sy'n galluogi'r ysgol i sefydlu man cychwyn ar gyfer darpar ddisgyblion.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a dau bennaeth cynorthwyol. Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd yn 2017. Hwn yw arolygiad llawn cyntaf yr ysgol.

Mae'r ysgol yn disgrifio'i hethos fel un sy'n seiliedig ar 'ddysgu yn yr 21ain ganrif' a 'thri philer gwydnwch, ysgolheictod a chymrodoriaeth'. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar ddatblygu'r unigolyn cyfan 'i fod yn ddysgwr annibynnol yn yr economi fodern sydd wedi'i globaleiddio'.

## Crynodeb

Mae Coleg Myddelton yn gymuned ddysgu ryngwladol fywiog lle mae disgyblion yn rhannu ymdeimlad gwych o berthyn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ddysgwyr sy'n llawn cymhelliant sy'n arddangos ymddygiad eithriadol o dda.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sefydlog yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hynod gadarn o ran medrau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu gwybodaeth bynciol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas, yn bennaf am nad yw tasgau'n gweddu i'w gallu yn ddigon da.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac maent yn awyddus i ddysgu, yn enwedig yn ystod y rhaglen arloesol 'dysgu trwy'r awyr agored'. Nodwedd hynod gryf o'r addysgu yw'r perthnasoedd gwaith cadarnhaol iawn rhwng disgyblion a staff. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth yn ystyrlon, gyda staff ymroddgar yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer eu disgyblion. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth fyfyriol a chymhellol ar gyfer yr ysgol, gyda gwaith tîm a chyfeiriad clir i sicrhau ei nodau.

Mae'r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safle ac adeiladau preswyl mewn ysgolion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth

A2 Gwella cysondeb yr addysgu a'r asesu ar draws yr ysgol

A3 Cryfhau effeithiolrwydd arweinwyr canol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu trwy gwricwlwm awyr agored cyfoethog.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o fedrau yn gysylltiedig â'r cwricwlwm. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu gwybodaeth bynciol. Maent yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac yn defnyddio hyn yn briodol i'w helpu â'u gwaith presennol. Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw tasgau yn gweddu'n ddigon da i'w gallu neu nid oes lefel addas o her.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn wrandawyr gofalus ac ystyriol. Maent yn gwrando'n astud ar eu hathro a'u cyfoedion, yn meddwl am y materion a godwyd ac yn defnyddio eu gwybodaeth bynciol yn briodol i lunio atebion gwybodus. Gwna llawer ohonynt ddefnydd effeithiol o derminoleg bynciol a geirfa estynedig i gyflwyno eu syniadau'n glir ac yn hyderus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn trafod eu syniadau'n feddylgar ynglŷn â phwy y gallent fod eisiau eu cynnwys mewn fersiwn fodern o The Canterbury Tales. Nid yw medrau iaith ychydig o ddisgyblion wedi eu datblygu'n ddigon da. Nid yw'r disgyblion hyn yn ei chael yn hawdd deall a mynd at wybodaeth trwy esboniadau llafar.

Ar draws yr ysgol, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn darllen yn rhugl, gyda hyder a mynegiant da. Maent yn esbonio'n frwd yr hyn y maent wedi'i ddarllen ac yn rhagweld y diwedd posibl ar gyfer storïau fel 'How to train your dragon'. Yn yr ysgol uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn briodol o amrywiaeth o wahanol ffynonellau i roi'r wybodaeth iddyn nhw eu hunain sydd ei hangen arnynt i gwblhau eu gwaith. Maent yn nodi ac yn gwerthuso gwahanol ddehongliadau o ffeithiau a thystiolaeth, ac yn defnyddio hyn i gyflwyno eu syniadau mewn ffordd argyhoeddedig, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er enghraifft, yn ystod gweithgareddau cofrestru tŷ, mae disgyblion yn nodi eitemau newyddion yn rheolaidd yn y cyfryngau i'w rhannu â'u cyfoedion trwy werthuso'r testun ar gyfer nodweddion argyhoeddiadol neu berswadiol. Nid yw ychydig o ddisgyblion bob amser yn defnyddio strategaethau addas i rannu geiriau anghyfarwydd yn ddarnau llai.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sicr o ran datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae'r mwyafrif ohonynt yn cymhwyso lefelau uchel o fedrau gramadeg ac atalnodi i gynhyrchu ysgrifennu hyfedr mewn ystod o gyd-destunau. Er enghraifft, mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio cwestiynau rhethregol yn fedrus wrth ysgrifennu adroddiad gwyddonol am y system dreulio i ddal sylw'r darllenydd yn y paragraff agoriadol. Defnyddiant amrywiaeth o fathau o frawddegau yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio sangiadau.

Yn yr ysgol uwchradd, mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ysgrifennu at wahanol ddibenion, a gwnânt ddewisiadau priodol o ran geirfa i weddu i'r arddull. Er enghraifft, wrth ysgrifennu llythyr cais am swydd, mae disgyblion yn defnyddio iaith ffurfiol briodol ac yn llunio achos clir a threfnus o ran eu

haddasrwydd ar gyfer y rôl. Mae disgyblion mwy abl yn hynod fedrus yn llunio atebion manwl ac yn llunio casgliadau meddylgar wedi'u cefnogi gan dystiolaeth, er enghraifft mewn hanes, i esbonio canlyniadau Argyfwng Taflegrau Ciwba. Fodd bynnag, mae gwaith ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion hŷn yn cynnwys gormod o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg sylfaenol, ac mae wedi'i gyflwyno a'i strwythuro'n wael.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau rhifedd sicr, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae'r defnydd hwn yn cynnwys mesur onglau'n gywir i ddarlunio drychau mewn perisgop mewn gwyddoniaeth, ac mewn hanes, cyfrifo canran y newid mewn troseddau yn sgil cynnydd yn nifer yr heddweision yn ystod oes Fictoria. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu mwy o hyder yn eu gallu i ddisgrifio ac esbonio'r strategaethau a'r rhesymu dros y dulliau y maent yn eu defnyddio yn eu gwaith rhifedd. Er enghraifft, mewn seicoleg, mae disgyblion Blwyddyn 12 yn dadansoddi graffiau gwasgariad yn drylwyr i ddarganfod y berthynas rhwng faint o gwsg a gaiff rhywun, a'i allu i ganolbwyntio. Nid yw ychydig o ddisgyblion hŷn yn meddu ar fedrau rhif cadarn a dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol allweddol. Maent yn ei chael yn anodd galw ffeithiau rhifiadol cyffredin i gof a gwneud amcangyfrifon synhwyrol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gymwys o ran defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) tra datblygedig i gefnogi eu dysgu. Defnyddiant eu dyfeisiau yn rheolaidd ac yn effeithiol at ddibenion ymchwil, gwneud nodiadau, cyflwyniadau, rhannu syniadau a storio ac adalw gwybodaeth. Er enghraifft, yn y dyniaethau, mae disgyblion cyfnod allweddol 3 yn ymchwilio a chreu cyflwyniadau electronig diddorol ac addysgiadol ar ddatgoedwigo gan ddefnyddio dulliau arloesol o greu effaith ddramatig ac amlygu nodweddion penodol.

Mewn perthynas â'u hoedran, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau meddwl defnyddiol. Maent yn cynllunio, yn monitro ac yn gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd gan wneud defnydd effeithiol o fedrau ymchwilio, myfyrio a dadansoddi. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn fedrus wrth ddadansoddi gwahanol ffynonellau tystiolaeth yn feirniadol i gyfiawnhau eu dehongliad a'u hymagwedd. Maent yn defnyddio rhesymu pwnc dilys ac yn rhoi safbwyntiau cytbwys cyn dod i gasgliadau addas, er enghraifft wrth ystyried y gwahanol safbwyntiau am rôl Trotsky yn Rhyfel Cartref Rwsia.

O ganlyniad i nifer fach y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, nid yw'n bosibl adrodd ar berfformiad a thueddiadau'r ysgol dros gyfnod.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn rhannu ymdeimlad gwych o berthyn i gymuned eu hysgol, ac maent yn ffynnu wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrtais a pharchus at oedolion a'u cyfoedion, ac yn dangos gofal ac ystyriaeth fawr am ei gilydd. Er enghraifft, mae agweddau croesawgar a chefnogol y disgyblion wedi effeithio'n gadarnhaol ar integreiddio disgyblion newydd i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffurfio

cyfeillgarwch cadarnhaol ar draws pob grŵp oedran, yn enwedig o fewn ‘teulu’ eu tŷ. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at eu datblygiad personol.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ddysgwyr brwdfrydig a llawn cymhelliant. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyrraedd gwersi’n brydlon, yn ymgymryd â’u tasgau’n gyflym, yn rhannu syniadau ac yn gwrando ar ddisgyblion a phobl eraill â diddordeb. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau dysgu annibynnol cryf, er enghraifft trwy ddewis lefel y tasgau neu’r ffordd y maent yn cyflwyno eu hymchwil. Mae bron pob un o’r disgyblion yn cydweithredu’n effeithiol mewn gweithgareddau pâr neu grŵp, er enghraifft ymchwilio i, a dewis, pytiau ffilm byr gyda’i gilydd ar gyfer eu cyflwyniadau.

Mae disgyblion o ystod eang o gefndiroedd diwylliannol yn integreiddio’n gadarnhaol ac yn mwynhau dathlu eu hamrywiaeth. Mae bron pob un o’r disgyblion yn meddu ar ymwybyddiaeth ddatblygol o ddigwyddiadau yn y byd a materion cyfoes, y maent yn ymchwilio iddynt ac yn eu trafod yn ystod y gweithgareddau cofrestru tŷ wythnosol.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel a saff yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi os byddant yn ddigalon neu’n pryderu am rywbeth, ac maent yn hyderus y bydd yr ysgol yn delio ag unrhyw achosion yn gyflym ac yn briodol.

Mae disgyblion yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu cyfranogiad yn nysgu’r ysgol trwy’r rhaglen awyr agored, sy’n cynnwys gweithgareddau fel mynydda, caiacio, byw yn y gwyllt a dringo. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwydnwch cryf a medrau personol a chymdeithasol buddiol trwy gymryd rhan yn y rhaglen arloesol hon. Er enghraifft, maent yn cryfhau eu medrau trefnu, cadw amser a gwaith tîm yn llwyddiannus, ac yn cydnabod y gall sawl gweithgaredd eu gwthio y tu allan i’w meysydd cyfarwydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau bwyta’n iach ac yn cydnabod sut mae’r dewisiadau hyn yn effeithio ar eu lles. Yn ogystal ag addysg gorfforol yn y cwricwlwm, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyd-gwricwlaidd cysylltiedig fel hyfforddiant ffitrwydd a chlybiau chwaraeon.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau amser cinio ac ar ôl yr ysgol, fel garddio, trafod a gwyddbwyll. Mae gweithgareddau o’r fath yn gwella mwynhad disgyblion yn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos y gallu i ymgymryd â rolau arwain trwy eu medrau cyfathrebu cryf a’u synnwyr o gyfrifoldeb, er enghraifft disgyblion cyfnod allweddol 2 yn arwain gwasanaethau yn hyderus, a disgyblion eraill yn eu rolau fel aelodau o senedd y myfyrwyr neu fel swyddogion. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gallu disgyblion i gyfrannu at ystod o benderfyniadau a wneir ar draws yr ysgol. At ei gilydd, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i ymgymryd â rolau arwain yn yr ysgol, gan gynnwys yn yr ystafell ddosbarth.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau bywyd pwysig trwy’r rhaglen dysgu yn yr awyr agored, er enghraifft, a’r ffocws cryf ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion.

Mae'r rhaglen dysgu trwy'r awyr agored yn gryfder yng nghwricwlwm amserlenedig yr ysgol. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynllun gwaith tra ystyriol gyda fframwaith dilyniant ac asesu clir. Mae pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y rhaglen, sy'n boblogaidd iawn yn eu plith, ac maent yn deall ei diben a'r modd y mae'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad personol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau cyd-gwricwlaidd difyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon a chreadigol, fel côr, dawnsio tap ac iwcalili. Mae'r gweithgareddau hyn yn boblogaidd, mae nifer dda o ddisgyblion yn eu mynychu, ac maent yn gwella cyfleoedd dysgu'n dda hefyd.

Yn ystod gwersi, mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu perthnasoedd gwaith cadarnhaol iawn ac amgylcheddau dysgu pwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i archwilio gwahanol gysyniadau gyda disgyblion, i brocio eu dealltwriaeth a mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau neu gamgymeriadau. Mewn ychydig o achosion, mae arbenigedd pynciol helaeth athrawon, ynghyd â'u brwdfrydedd a'u gwybodaeth am eu disgyblion, yn eu helpu i greu trafodaethau ystafell ddosbarth ysgogol, y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ymuno ynddynt.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda, eu cryfderau a'r meysydd y cânt yr anhawster mwyaf â nhw yn eu dysgu. Mae mwyafrif yr athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i adeiladu ar ddealltwriaeth flaenorol disgyblion trwy gynllunio gwersi a chynorthwyo disgyblion ar lefel addas. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r addysgu yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw tasgau'n gweddu'n ddigon da i alluoedd disgyblion, neu ddiffyg cyflymdra a her yn yr addysgu. Mewn ychydig o wersi, ni chaiff disgyblion mwy abl eu hymestyn ddigon.

Mae llawer o athrawon yn dewis ystod eang o weithgareddau ac adnoddau i ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell, gan eu galluogi yn aml i ddefnyddio gwahanol strategaethau datrys problemau o gyd-destunau go iawn. Mae'r dull hwn yn hynod fuddiol o ran datblygu medrau meddwl disgyblion. Mae mwyafrif yr athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg i gyflwyno gweithgareddau gwersi a deunyddiau dysgu i ennyn diddordeb disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r defnydd o dechnoleg yn cefnogi dysgu disgyblion yn briodol. Er enghraifft, mewn ychydig o achosion, mae'n cyfyngu ar syniadau disgyblion, yn arwain at atebion byr ac annatblygedig, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i lunio atebion ysgrifenedig wedi'u saernïo'n dda.

Mae llawer o athrawon yn darparu adborth llafar amserol yn ystod gwersi i helpu cymell disgyblion a rhoi cymorth, neu fynd i'r afael â chamgymeriadau er mwyn iddynt wella. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r cyngor penodol a ddarperir, gan gynnwys dangos parodrwydd i 'roi cynnig arni'.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu sylwadau ysgrifenedig defnyddiol i helpu disgyblion i wella. Yn yr achosion gorau, mae adborth athrawon yn cynnwys ffocws clir ar gysyniadau a medrau allweddol, ac mae'n darparu cyngor defnyddiol y mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iddo. At ei gilydd, mae gormod o amrywiad yn ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi cyngor penodol

ar sut gall disgyblion wella eu gwaith neu sicrhau bod disgyblion yn ymateb i unrhyw sylwadau neu gamgymeriadau. Mae ychydig ohonynt yn gor-ganmol gwaith sydd wedi gofyn am ychydig iawn o ymdrech gan ddisgyblion.

Caiff datblygiad medrau TGCh disgyblion ei gefnogi'n dda gan eu defnydd helaeth o ddyfeisiau electronig mewn gwersi. Megis dechrau cael eu datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi rhoi cynllun ar waith yn ddiweddar i gynorthwyo disgyblion trwy ddarllen mewn grwpiau bach. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ryngwladol effeithiol, sy'n dathlu amrywiaeth yn ystyrlon ac yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer ei disgyblion. Mae'r cymorth tra ystyriol a gaiff disgyblion gan staff yn cyfrannu'n werthfawr at eu synnwyr cryf o les. Mae staff yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach yn llwyddiannus, trwy wasanaethau, gweithgareddau cofrestru tŷ a digwyddiadau'r ysgol. Yn y gweithgareddau cofrestru tŷ, mae disgyblion yn ymchwilio i, a thrafod, materion byd-eang yn rheolaidd. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnal ffair ryngwladol flynyddol lle mae disgyblion yn creu stondinau yn dathlu eu diwylliant, eu gwisg genedlaethol a'u bwyd.

Caiff datblygiad personol disgyblion ei hyrwyddo'n effeithiol trwy raglen addysg, bersonol, gymdeithasol ac iechyd yr ysgol. Mae'r rhaglen yn darparu ystod gynhwysfawr o destunau sy'n briodol i oedran, gan gynnwys llywodraeth, cyfraith a threfn, y cyfryngau ac iechyd meddwl. Mae disgyblion chweched dosbarth yn elwa ar sesiynau sy'n canolbwyntio ar reoli straen a meddylgarwch hefyd.

Ceir darpariaeth fuddiol i helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Er enghraifft, mae'r system goleuadau traffig i labelu bwyd yn ffreutur yr ysgol yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiet iach. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau corfforol allgyrsiol, gan gynnwys bale, taekwondo a ffrisbi eithafol. Yn ychwanegol, mae'r rhaglen dysgu trwy'r awyr agored yn datblygu lefelau cynyddol o ffitrwydd, yn ogystal â medrau cydweithredu, ymddiriedaeth a gwydnwch.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion er mwyn eu paratoi i fod yn ddinasyddion gweithgar. Er enghraifft, mae pob tŷ yn codi arian ar gyfer sefydliadau elusennol, ac fe gaiff disgyblion eu hannog i helpu'r rheiny sy'n llai ffodus na nhw eu hunain, er enghraifft trwy fynd â rhoddion i hosbis leol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddal swyddi â chyfrifoldeb yn yr ysgol a dylanwadu ar ei gwaith yn gyfyngedig.

Mae cyflwyno system gwybodaeth reoli newydd yn ddiweddar yn gwella'r arfer o rannu gwybodaeth allweddol am ddysgu rhwng staff am y disgyblion y maent yn eu haddysgu. Yn gyffredinol, mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau disgyblion, a'u meysydd i'w gwella. Trwy ymgynghori â rhieni a staff, mae'r ysgol yn paratoi a rhannu cynlluniau dysgu unigol manwl ar gyfer pob un o'r disgyblion. Yn ychwanegol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ysgrifennu argraffluniau addysgiadol amdanyn nhw eu hunain, yn amlinellu ble mae angen cymorth arnynt, ac fe gaiff y rhain eu rhannu â rhieni a staff. Mewn ychydig o achosion, ni ddefnyddir y wybodaeth gyfunol

hon yn ddigon da i lywio cynlluniau addysgu a sicrhau bod anghenion pob un o'r disgyblion yn cael eu diwallu.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio data o'i system olrhain, a gwybodaeth arall, yn fedrus i ddadansoddi perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Er enghraifft, defnyddir adroddiadau ar bresenoldeb disgyblion unigol yn effeithiol i ddyfeisio strategaethau personoledig i helpu gwella presenoldeb, pan fydd angen. Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth olrhain hefyd i ddarparu cymorth buddiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac ar gyfer llawer o ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Llwyddodd y perchennog, y pennaeth a'r uwch arweinwyr i sefydlu'r ysgol fel cymuned ddysgu ryngwladol fywiog, ddifyr ac arloesol. Ers iddi ddechrau, bu twf iach yn niferoedd y disgyblion, yn rhannol o ganlyniad i agor yr ysgol baratoadol.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth fyfyriol a chymhellol. Ers ei benodi, mae wedi sefydlu ethos cymunedol cryf a meithringar ac wedi llwyddo i ymgorffori gweledigaeth yr ysgol yn seiliedig ar 'dri philer gwydnwch, ysgolheictod a chymrodoriaeth'. Ar ôl cyfnod cychwynnol anodd ac eithriadol o heriol i'r ysgol, mae arweinwyr bellach yn rhoi strwythurau a strategaethau addas ar waith i wella deilliannau a darpariaeth. Hefyd, mae'r ysgol wedi cymryd camau i sefydlu corff llywodraethol i oruchwylio, cynorthwyo a herio'i gwaith yn briodol.

Ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth, mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer holl feysydd gwaith yr ysgol. Mae'n gefnogol i gydweithwyr ond mae hefyd wedi cymryd camau priodol pan fo angen i herio tanberfformio a chryfhau'r ddarpariaeth. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu hamlinellu'n glir mewn swydd-ddisgrifiadau manwl a phenodol. Mae trefniadau rheoli llinell yn helpu darparu'r lefel angenrheidiol o gymorth a her i staff.

Trwy friffiau rheolaidd ac amrywiaeth o gyfarfodydd tîm ar bob lefel, mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithlon o ddydd i ddydd. Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am bob agwedd ar waith yr ysgol, ac ymgynghorir â nhw'n fuddiol ynglŷn â mentrau penodol, fel defnyddio TGCh.

Mae'r ysgol yn rhoi trefniadau sicrhau ansawdd addas ar waith, gan gynnwys rhaglen o adolygiadau adrannol, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith. Mae arweinwyr canol yn ystyried cynnydd disgyblion yn ofalus, ac yn dadansoddi eu perfformiad mewn arholiadau allanol yn drylwyr. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu arweinwyr i gaffael dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol, yn ogystal â meysydd i'w gwella. Eir i'r afael â'r rhain yn briodol trwy flaenoriaethau a ddeellir yn dda, ac ystod o gamau gweithredu perthnasol yng nghynllun gwella'r ysgol. Fodd bynnag, dros gyfnod, mae ansawdd arweinyddiaeth ganol wedi amrywio gormod. Er bod y mater hwn bellach yn cael ei gywiro trwy drefniadau gwella ansawdd yr ysgol, mae'n rhy

gynnar i weld effaith gynaledig y gwaith hwn ar addysgu a’r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Rhoddir pwyslais priodol ar gefnogi datblygiad proffesiynol staff. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi cyflwyno rhaglen o ‘sgwariau dysgu’ ar gyfer arsylwadau cymheiriaid yn ddiweddar, i helpu hyrwyddo arfer orau mewn addysgu a dysgu. Fodd bynnag, ni chaiff trefniadau rheoli perfformiad eu hymgorffori’n llawn ar draws yr ysgol, ac nid ydynt yn cyfrannu ddigon at gefnogi datblygiad staff neu wella’r ysgol.

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol. Ceir nifer addas o staff cymwys a phrofiadol i gyflwyno’r cwricwlwm. Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu difyr ac yn gwneud defnydd rhagorol o’r lleoliad naturiol ysgogol trwy ei dysgu trwy’r rhaglen awyr agored. Mae’r perchennog yn sicrhau bod yr holl gyllidebau yn cael eu monitro’n drylwyr. Bu ffocws hynod gryf ar recriwtio o fewn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol.

Mae’r ysgol yn bodloni pob un o Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Pan fydd disgybl yn cael ei leoli gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad i bob awdurdod perthnasol.

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2019